# Dulliau Dysgu Iaith Amgen G20fed (1)

# Stephen Krashen
1941-



Yr Athro Emeritws - Prifysgol De Califfornia;

Ieithydd, ymchwilydd addysgol ac ymgyrchydd gwleidyddol;

Mwy na 486 o gyhoeddiadau mewn caffaeliad ail iaith. Mae rhai o'r rhain wedi'u gwobrwyo.

# Stephen Krashen

Mae'n adnabyddus am gyflwyno pum prif ddamcaniaeth:

1. Y rhagdybiaeth caffael-dysgu;
2. Y rhagdybiaeth monitro;
3. Y rhagdybiaeth mewnbwn;
4. Y rhagdybiaeth trefn naturiol;
5. Y rhagdybiaeth hidlo effeithiol.

He is known for introducing five main hypotheses:

1. The acquisition-learning hypothesis;
2. The monitor hypothesis;
3. The input hypothesis;
4. The natural order hypothesis;
5. The affective filter hypothesis.

# Stephen Krashen

http://www.sdkrashen.com

Under attack: The case against bilingual education

- https://www.youtube.com/watch?v=NiTsduRreug

# James Asher



Athro Emeritws Seicoleg ym Mhrifysgol y Wladwriaeth San Jose

YCLl = Ymateb Corfforol Llwyr
(TPR = Total Physical Response)

Yn seiliedig ar:

- ✓ y ffordd y mae plant yn dysgu eu mamiaith
- ✓ cydlyniad iaith a symudiad corfforol.

# YMATEB CORFFOROL LLWYR

- **Dull Ymateb Corfforol Llwyr** yn seiliedig ar symudiad
- Un o egwyddorion sylfaenol y dull **Ymateb Corfforol Llwyr** yw bod y disgybl yn cysylltu'r iaith â rhai symudiadau.

# YCL1

- https://www.youtube.com/watch?v=bkMQXFOqyQA

# YCL1 – Sut gallaf ei ddefnyddio?

- Dywedwch air a dangoswch symudiad; ailadroddwch
- Mae'r athro yn dweud y gair a'r disgyblion yn gwneud y symudiad; ailadrodd
- Mae'r athro yn gwneud y symudiad, mae'r disgyblion yn dweud y gair; ailadrodd
- Gydag  hyder, gall disgyblion unigol arwain y dosbarth.
- Mae'n effeithiol os yw'r disgyblion yn sefyll mewn cylch / hanner cylch

# YCL1 - Pam ddylwn i ei ddefnyddio?

- Mae'n hwyl! Mae'n magu cyflymder a'r hwyliau;
- Mae'n gofiadwy - yn helpu disgyblion i gofio ymadroddion neu eiriau;
- Mae'n dda i ddysgwyr cinesthetig sydd angen bod yn weithredol;
- Gellir ei ddefnyddio mewn dosbarthiadau bach neu fawr;
- Mae'n gweithio'n dda gyda dosbarthiadau gallu cymysg;
- Nid oes angen llawer o baratoad na deunyddiau arnoch.

# YCL1 – oes anfanteisION?

- Efallai y bydd rhai disgyblion yn teimlo’n chwithig ar y dechrau;
- Mae'n well ar gyfer lefel dechreuwyr - dysgu geirfa, cyfarwyddiadau sylfaenol;
- Ni allwch ddysgu popeth gydag ef;
- Byddai gormod o ddefnydd yn ailadroddus.

# YCL1 v HADAS

- HADAS = Hyfedredd Addysgu trwy Ddarllen ac Adrodd Storiau (yn Saesneg – TPRS - Teaching Proficiency through Reading and Storytelling)
- Mae gwersi HADAS yn defnyddio cymysgedd o ddarllen ac adrodd storiau i helpu disgyblion i ddysgu iaith dramor mewn ystafell ddosbarth.

# Blaine Ray

- O -

Wedi'i ddatblygu'n wreiddiol yn y 1990au



Mae HADAS yn anarferol - mae wedi ei greu a'i ddatblygu gan athrawon iaith.

Mae athrawon yn cyhoeddi eu deunyddiau eu hunain;

Yn gyffredinol, cynigir hyfforddiant mewn gweithdai gan athrawon HADAS presennol (yn hytrach na thrwy AGA).

https://tprsbooks.com

# Stori HADAS

- https://www.youtube.com/watch?v=jczglmpEvSE

# HADAS

- Yn seiliedig ar ddamcaniaethau caffael ail iaith Stephen Krashen - y ffordd orau o helpu myfyrwyr i ddatblygu rhuglder a chywirdeb yw eu hamlygu i **fewnbwn cynhwysfawr** dwys.
- Mae HADAS yn gwneud yr iaith a siaredir yn y dosbarth yn **ddealladwy** ac **ymgysylltiol**.

# HADAS

- Mae pob gwers yn seiliedig ar dri ymadrodd geirfa (neu lai) fel:

1. gall athrawon ganolbwyntio ar addysgu pob ymadrodd yn drylwyr;
2. gall y disgyblion fewnoli (internalise) pob ymadrodd cyn symud ymlaen i ymadroddion newydd.

# HADAS

1. Mae'r strwythurau geirfa newydd yn cael eu dysgu gan ddefnyddio cyfuniad o gyfieithu, ystumiau a chwestiynau;
2. Defnyddir y strwythurau hyn mewn stori lafar mewn dosbarth;
3. Bydd yr athro / athrawes yn defnyddio nifer o dechnegau i helpu i wneud yr iaith darged yn ddealladwy, e.e. yn gofyn am gwestiynau hawdd, gwirio dealltwriaeth, esboniadau gramadeg byr.

Mae rhai athrawon hefyd yn rhoi gweithgareddau darllen ychwanegol, ac mae nofelau hawdd wedi eu hysgrifennu gan athrawon HADAS at y diben hwn.

# HADAS

- https://www.youtube.com/watch?v=Hl9eBJkRkeQ

# Georgi Lozanov

1926-2012



Seicolegydd Bwlgaraidd yw syfleiniydd y dull **Awgrymeg / Dadawgrymeg**.

Fe'i crëwyd yn wreiddiol nôl yn y saith degau.

Mae bellach wedi lledaenu ar draws y byd. Cymerodd y Americanwyr y cysyniad a'i ailbecynnu fel `Accelerated Learning '.

Popeth Cymraeg

https://www.popethcymraeg.cymru/index.php/cy/dullia-dysgu/du

# AWGRYMEG (DADAWGRYMEG)

- Defnyddir cerddoriaeth a phwyslais ar ymlacio.
- Rhoddir pwyslais ar sicrhau bod y disgyblion yn ymlacio, trwy ddefnyddio e.e. cadeiriau esmwyth ymlaciol ac ati cyn cyflwyno'r iaith iddynt, yn aml trwy stori ddeniadol. Mae cyfres deledu megis *Popeth yn Gymraeg* dan arweiniad Ioan Talfryn wedi defnyddio'r dull hwn.

Ni chyfieithwyd y ddwy sleid ganlynol. Tarddiad: Villamin et al. (1994)

# Suggestopedia

1. It uses the power of suggestion to help students eliminate the feeling that they cannot succeed.
2. There should be a relaxed, comfortable environment with dim lights and soft music to facilitate learning.
3. Students' imagination is used. They can assume new names, and new identities and respond to the teacher accordingly using the target language.
4. Present and explain grammar and vocabulary words, but not discuss at length or thoroughly.
5. Native language translation is used in order to get the clear meanings of words in the target language.

# Suggestopedia

6. Communication takes place in the conscious and subconscious of the learners. The former is about the linguistic message. It is where the students pay attention to a dialogue that is being read, while the latter is where the music is played as a background. Music suggests that learning is easy.
7. Teaching is done by integrating music, song, and drama.
8. The emphasis of teaching is more on content. Errors made by students are tolerated at the beginning of the lesson but in the later part, the correct forms are used by the teachers.
9. No formal tests are given, but the evaluation is done during the normal in-class performance

Villamin et al. (1994)

# Suggestopedia/Desuggestopedia

Nodyn ar Derminoleg.

.

- https://www.youtube.com/watch?v=kNGUGqdwONw

Rhagor o wybodaeth yn:

Larsen-Freeman, D. Techniques and Principles of Language Teaching, 2000.

# Caleb Gattegno

1911-1988



Cyflwynodd  'Y Dull Tawel'

(' The Silent Way') ym 1963.

Seiliodd y dull ar ei theorïau cyffredinol o addysg yn hytrach nag ar addysgeg iaith oedd yn bodoli eisoes.

# Y Dull Tawel

Yn seiliedig ar y syniad:

- dylai athrawon fod mor ddistaw â phosib;
- dylid annog dysgwyr i siarad cymaint â phosib

Mae angen i'r dysgwyr ddarganfod :

- Bod dysgu yn haws trwy ddefnyddio gwrthrychau diriaethol;
- Bod dysgu yn haws trwy ddatrys problemau yn yr iaith darged.

# Y Dull Tawel

Bydd yr athro:

- Yn defnyddio cymysgedd o dawelwch ac ystumiau wrth annog ymatebion;
- Yn annog dysgwyr i gywiro eu camgymeriadau eu hunain;
- Yn canolbwyntio ar nifer fach o eiriau gweithredol/ymarferol aa amlbwrpas;
- Yn osgoi cyfieithiadau ac  ailadrodd.
- Mae ynganu yn hanfodol i'r dull.

# Y Dull Tawel

- Mae’r prif ddull yn defnyddio'r rhodenni ‘cuisenaire’



- Am wybodaeth bellach ewch i:

  http://john.mullen.pagesperso-orange.fr/cuisenaire.htm

# Silent Way


a rod ~s ~s red blue
green yellow orange
take ~n't give brown 's
and me it to this 's
he two them here too
the is her white the
there an other that
his one are us these
put him black there



# Silent Way

- https://www.youtube.com/watch?v=50aRITGCAtk
- https://www.youtube.com/watch?v=VAXKZY2UJvI